# R H A G L E N

1. **CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn am 2012-2013.

*(Cyfeirir yr Aelodau at Drefn y Busnes yng nghyswllt y seremoni i ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor Sir)*

2. **IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2012-2013.

3. **PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR SIR**

Ethol Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (hyd yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym Mai 2013). (Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.6 ac yn arbennig Paragraff 2.7.3 o Gyfansoddiad y Cyngor).

4. **PENODI DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR SIR**

Ethol Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn (hyd yr Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf ym Mai 2013). (Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.6 ac yn arbennig Paragraff 2.7.3 o Gyfansoddiad y Cyngor).

**5.** **CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu Bennaeth y Gwasanaeth Taledig.

6. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb ynghylch unrhyw eitem o fusnes gan unrhyw Aelod neu Swyddog.

7. **DATGANIAD GAN YR ARWEINYDD / AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Rheol 4.4.1.2 Rheolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith, derbyn gwybodaeth gan yr Arweinydd ynghylch enwau'r Cynghorwyr y mae ef/hi wedi'u dewis i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, ynghyd â'u cyfrifoldebau portffolio ac unrhyw wybodaeth bellach fydd ei hangen dan Reol 4.4.1.2.

8. **CADARNHAU'R PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau cyfredol canlynol fel y cyfeirir at hynny yn Adran 3.4 Cyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol:-

- *Pwyllgorau Sgriwtini*
- *Panel Tâl a Graddfeydd a sefydlir gan y Cyngor Sir*
- *Panel Penodi'r Pwyllgor Safonau*
- *Pwyllgor Safonau*

- *Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol*
- *Cydbwyllgor Anghenion Addysg Arbennig*
- *Cydbwyllgor Polisi Cynllunio.*

9. **CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau unrhyw rannau o'r Cynllun Dirprwyo y mae'n rhaid i'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, gytuno arnynt (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 y Cyfansoddiad).

10. **RHAGLEN O GYFARFODYDD CYFFREDIN Y CYNGOR SIR**

Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor am y flwyddyn i ddod:-

| | | |
|---|---|---|
| **27 Medi 2012** | **-** | **2:00pm** |
| **6 Rhagfyr 2012** | **-** | **2:00pm** |
| **5 Mawrth 2013** | **-** | **2:00pm** |
| **9 Mai 2013** | **-** | **10:30am a 2:00pm (Cyfarfod Blynyddol)** |